

## CYFLE CYNNAR I DDYLANWADU AR GANLLAW CYNLLUNIO ATODOL NEWYDD

### CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL A'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cydweithio i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Pan gaiff ei fabwysiadu yn 2017 fe fydd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Cynllun Fframwaith Gwynedd, Cynllun Lleol Ynys Môn, Cynllun Datblygu Unedol Môn a Pholisïau Dros Dro sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer Ynys Mon.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys polisiau a fydd yn sail i Awdurdod Cynllunio Gwynedd ac Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn allu gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw am geisiadau cynllunio. Oherwydd yr angen i sicrhau bod y Cynllun yn fwy cryno, strategol a phenodol, nid yw'r Cynllun ei hun bob tro yn gallu rhoi'r arweiniad manwl llawn y bydd swyddogion a darpar ymgeiswyr ei angen i ddylanwadu ar gynigion datblygu.

Mae'r Cynghorau felly yn bwriadu paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI) ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Mae'r papur yma yn rhoi cyfle buan i randdeiliaid penodol ddylanwadu ar gynnwys un o'r CCA.

### BETH YW CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL?

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn cael eu diffinio fel canllawiau sy'n rhoi gwybodaeth atodol ynghylch y polisiau mewn cynllun datblygu neu bolisi cenedlaethol cyfredol. Mae CCA yn rhoi arweiniad manylach ar sut y defnyddir polisiau cynlluniau datblygu mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Maent yn helpu datblygwyr i drosi'r polisiau i gynigion datblygu da yn unol ag amcanion defnydd tir cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae CCA yn gallu ymdrin ag ystod o faterion gan gynnwys ystyriaethau dylunio manwl (y cyfeirir atynt yn aml fel 'Canllawiau Dylunio'), rhwymedigaethau adran 106 a gofynion o ran gwybodaeth sy'n angenrheidiol i benderfynu ar gais cynllunio.

Er bod arweiniad a geir mewn CCA yn gyson â'r polisiau perthnasol mewn cynllun datblygu, nid oes ganddynt statws statudol llawn fel y rhoddir gan ddarpariaethau'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Fodd bynnag, mae ganddynt statws 'ystyriaeth berthnasol' wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio o fewn y maes pwnc/defnydd tir perthnasol. Mae 'pwysau sylweddol' yn cael ei roi arnynt mewn penderfyniadau cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru, os dilynwyd trefn benodol i'w paratoi sy'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus.

## CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL I GEFNOGI'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Byddant yn cael eu paratoi gam wrth gam. Ceir rhestr o'r CCA a ragwelir bydd eu hangen ar hyn o bryd yn Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau (<http://gwyneddmon.jdi-consult.net/ldp/readdoc.php?docid=10>).

Mae'r rhestr yn cynnwys "Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy":

Enw	Polisiau perthnasol yn y Cynllun Adnau	Amserlen
Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy	PS1, ISA1, PS5	Bydd CCA cyfredol (Gwynedd a Môn) yn cael eu hadolygu, diweddarau a'u hymestyn. Efallai bydd fersiwn drafft yn cael ei gyflwyno cyn/ neu adeg yr Archwiliad.

Dyma'r CCA a fydd yn helpu ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio i ddeall beth mae datblygu cynaliadwy yn ei olygu yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae gwahanol fathau o ddatblygiad mewn lleoliadau gwahanol yn cyflwyno gwahanol gyfleoedd i gynnal neu creu cymunedau unigryw a chynaliadwy. Efallai bydd angen arolygon ac adroddiadau ategol i alluogi'r Awdurdod Cynllunio i wneud penderfyniad. Bydd y CCA yma yn rhoi manylion am hyn.

Bydd angen i'r CCA newydd fod yn gyson a pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sy'n cynnwys Polisi PS1:

### POLISI STRATEGOL PS1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:

1. Ofyn am Ddatganiad iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn disgyn i mewn i un o'r categorïau canlynol:
  - a) Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o

- weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy; neu
- b) Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r targed tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 14 – 18; neu
  - c) Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap nad yw'n cynnig darparu ystod ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau;
2. Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig:
    - a) Ar safle ar hap; ac
    - b) Yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisiâu a chynigion y Cynllun;
  3. Ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny iddynt;
  4. Wrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned;
  5. ~~Annog bod~~ Gofyn bod holl arwyddion gweithredol gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes yn ddwyieithog;
  6. ~~Annog defnyddio~~ Gosod disgwyliad y bydd enwau ~~lleoedd~~ Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.

(Nodyn: Dyma Polisi PS1 gyda Newid â Ffocws NF15, sy'n cael ei ddangos trwy danlinellu geiriau newydd a dynnu rhai allan lle bo hynny'n berthnasol )

Ar ôl i'r CCA gael ei fabwysiadu fe fydd yn disodli "Canllawiau Cynllunio Atodol – Cynllunio a'r iaith Gymraeg" (2009) Cyngor Gwynedd a "Canllawiau Cynllunio Atodol - Cynllunio a'r iaith Gymraeg (2007) Cyngor Sir Ynys Môn. Yn y cyfamser fe fydd y CCA cyfredol yn dal i gael ei ddefnyddio ac yn dal i gario pwysau fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## Y CYD-DESTUN EHANGACH

Bydd angen i'r CCA hefyd fod yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru (<http://gov.wales/docs/desh/publications/160104ppw-chapter-4-cy.pdf> ) a Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg (<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?lang=cy> ). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn ddiweddar ar fersiwn diwygiedig o Nodyn

Cyngor Technegol 20 er mwyn sicrhau ei fod yn gyson a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 o ran lles yr iaith Gymraeg.

Mae paratoi'r CCA newydd hefyd yn rhan o'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn cyd-fynd a phenderfyniad Cyngor Gwynedd ar 18 Mawrth 2016:

“O dderbyn mai dogfen fyw ymatebol ydyw asesiad iaith y Cynllun Datblygu Lleol, gofynnwn i'r Cyngor ymgynghori ar ffyrdd o gyfoesi monitro effaith y sefyllfa gynllunio bresennol ac arfaethedig ar y Gymraeg. Dylai hynny ddigwydd gyda defnydd llawn o ffigurau Cyfrifiad 2011 a hefyd gydag ystyriaeth o addasrwydd gwaelodol y nifer tai a phoblogaeth sy'n sail i'r Cynllun.”

## **PROSES PARATOI CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU UNIGRYW A CHYNALIADWY O SAFBWYNT YR IAITH GYMRAEG**

Dyma dabl sy'n disgrifio'r broses o baratoi'r CCA newydd:

<b>Cam yn y broses</b>
1. Adolygu CCA cyfredol sydd gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, sy'n cynnwys cysylltu gyda rhanddeiliaid penodol (fel grwpiau iaith, swyddogion achos, ymgynghorwyr cynllunio, cynllunwyr iaith) i gael barn am gryfderau a gwendidau'r CCA cyfredol
2. Ystyried yr adborth a llunio CCA drafft ymgynghorol
3. Adroddiad i Banel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ( <i>Medi 2016</i> )
4. <i>Cyflwyno copi o'r CCA drafft ymgynghorol i'r Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd (dim ond os ydi'r Arolygydd yn gofyn amdano)</i>
5. Ymgynghoriad cyhoeddus am y CCA drafft ymgynghorol ( <i>Tachwedd – Rhagfyr 2016 ar ôl cwblhau'r Gwrandawiadau Cyhoeddus sy'n rhan o'r Archwiliad Cyhoeddus</i> )
6. Ystyried yr adborth a chyflwyno adroddiad i: <ol style="list-style-type: none"> <li>Pwyllgor Iaith (Cyngor Gwynedd) a Grwp Arweinyddion (Cyngor Sir Ynys Môn) (er gwybodaeth);</li> <li>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i roi cymeradwyaeth i'r CCA ac i'r Awdurdodau ddilyn proses briodol o ran</li> </ol>

mabwysiadu'r CCA (*Mawrth 2017*)

7. Defnyddio'r CCA fel ystyriaeth gynllunio berthnasol yn gysylltiedig â cheisiadau cynllunio lleol perthnasol.

## CAM 1: ADOLYGU CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL CYFREDOL

Gallir gweld y CCA cyfredol am ddatblygu a'r iaith Gymraeg yn:

CCA Cynllunio a'r iaith Gymraeg (2009) Cyngor Gwynedd

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Unedol/CCA-Cynllunio-ar-iaith-Gymraeg.pdf>

CCA Cynllunio a'r iaith Gymraeg (2007) Cyngor Sir Ynys Môn

[http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/public/attachments/68/Cynllunio\\_ar\\_iaith\\_Gymraeg.pdf](http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/public/attachments/68/Cynllunio_ar_iaith_Gymraeg.pdf)

Os hoffech dderbyn 1 copi caled mae croeso i chi gysylltu gyda'r Uned Polisi Cynllunio ar Cyd (manylion ar ddiwedd yr adroddiad yma).

Cyn mynd ati i lunio'r CCA newydd, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn awyddus i gael barn rhanddeiliaid amrywiol sydd wedi cael profiad o ddefnyddio'r CCA cyfredol a/ neu sydd gan ddiddordeb ym mha fath o arweiniad a ddylid ei gynnwys yn y CCA newydd.

Hoffwn ateb i'r cwestiynau canlynol a darparwyd ffurflen benodol i chi ddefnyddio i'w hateb:

**Cwestiwn 1:** ydi'r CCA cyfredol yn ymdrin â blaenoriaethau ar gyfer yr iaith Gymraeg o ran defnyddio tir neu adeiladau? Os nad ydi o, pa faterion amgen ydych chi'n awgrymu?

**Cwestiwn 2:** ydi'r CCA cyfredol yn ymdrin â materion na ddylid eu cynnwys o fewn CCA? Os ydi o, wnewch chi roi manylion y materion yma.

**Cwestiwn 3:** ydi'r CCA cyfredol ddigon clir ynglŷn â pha fath o ddatblygiad a fydd angen cael gwybodaeth amdano o safbwynt yr iaith Gymraeg?

**Cwestiwn 4:** mae'r CCA yn cynnwys nifer o gwestiynau er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i gyflwyno Datganiad Ieithyddol a Chymunedol? Ydi'r cwestiynau ddigon clir? A ddylid gofyn cwestiynau ychwanegol? Os ydych o'r farn bod angen newid, wnewch chi awgrymu sut gallir newid y cwestiynau a/ neu pa fath o gwestiynau sydd angen eu gofyn?

**Cwestiwn 5:** mae ymgymryd ag Asesiad Effaith Ieithyddol yn golygu ateb nifer o gwestiynau Ydi'r cwestiynau ddigon clir? A ddylid gofyn cwestiynau ychwanegol? A ddylid cael gwared â chwestiynau? Os ydych o'r farn bod angen newid, wnewch chi egluro'ch safbwynt gan awgrymu sut gallir newid y cwestiynau a/ neu pa fath o gwestiynau sydd angen eu gofyn?

**Cwestiwn 6:** ydi'r CCA ddigon clir ynglyn â chael mewnbwn mentrau iaith lleol a chynllunwyr iaith i gynorthwyo ymgeiswyr i lunio'r cynnig a fydd yn destun cais cynllunio?

**Cwestiwn 7:** ydi'r CCA cyfredol ddigon clir ynglŷn â pha fath o amodau cynllunio neu ymrwymadau cynllunio allir eu llunio i sicrhau mesurau lliniaru priodol, iawndal, a/ neu fesurau gwella yn ymwneud â chynigion datblygu er mwyn cynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg, a sut fydd y Cynghorau yn mynd ati i gael amodau cynllunio neu ymrwymadau?

**Cwestiwn 8:** a oes gennych unrhyw sylwadau eraill am gynnwys y CCA cyfredol? Os oes, gwerthfawrogwn pe allwch gyflwyno'r sylwadau mor glir ac mor gryno â phosib, gan gyfeirio at rannau perthnasol o'r ddogfen (e.e. rhif paragraff).

## **SUT A PHRYD I GYFLWYNO YMATEB?**

Dylid cyflwyno ymateb ar y ffurflen benodedig erbyn **4.30 ym ar 12 Awst 2016** i:

[polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru)

neu

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor

Ffordd Gwynedd

Bangor

GWYNEDD LL57 1DT

## **YSTYRIED Y SYLWADAU A CHAMAU DILYNOL**

Rhoddir ystyriaeth i unrhyw sylw priodol a gaiff ei gyflwyno yn ystod y cyfnod penodol. Bydd papur yn cael ei baratoi i gofnodi'r sylwadau ac adnabod y prif negeseuon. Mae'r tabl ar dudalen 4 yn rhoi disgrifiad bras o'r broses. Byddwch yn cael cyfle eto yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a fydd ei angen cyn gallu cwblhau'r CCA drafft terfynol i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ac i'r Awdurdodau ddilyn proses briodol o ran mabwysiadu'r CCA.

Ni allir mabwysiadu'r CCA newydd hyd nes bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu. Anelir i wneud hynny ym mis Mawrth 2017. Mae'r amserlen a roddwyd yn y tabl ar dudalen 4 yn un dangosol ar hyn o bryd oherwydd yr angen i blethu'r gwaith i baratoi'r CCA i mewn i'r gwaith yn gysylltiedig â'r Archwiliad Cyhoeddus.